



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot



Department of
**Agriculture, Environment
and Rural Affairs**

www.daera-ni.gov.uk

Ymgynghoriad ar Reoliadau drafft Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Pecynwaith a Gwastraff Pecynwaith) [2024]

Dogfen Ymgynghori

28 Gorffennaf 2023

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Ni sy'n gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi gwyrdd a chefnogi'n diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd i'r genhedlaeth nesaf, a'i adael mewn cyflwr gwell nag y cawson ni'r amgylchedd ynddo.



© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gov.uk

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon aton ni yn

packaging@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol	4
2. Rhagymadrodd	5
Diben yr ymgynghoriad	5
Y gynulleidfa	7
Ymateb i'r ymgynghoriad.....	7
Y cyfnod ymgynghori.....	8
Ar ôl yr ymgynghoriad	8
Cydymffurfio â'r egwyddorion ymgynghori	9
Amdanoch chi.....	9
3. Esbonio'r Rheoliadau drafft.....	11
Trosolwg o'r ddeddfwriaeth sy'n rhoi diwygiadau'r EPR dros becynwaith ar waith 11	
Newidiadau yn y Rheoliadau drafft o'r bwriadau polisi a nodwyd yn Ymateb y Llywodraeth	12
Beth sydd heb ei gynnwys yn y Rheoliadau drafft a diwygiadau yn y dyfodol	13
Trosolwg o'r Rheoliadau drafft.....	15
Y camau nesaf.....	27
Y camau nesaf ar roi'r Rheoliadau drafft ar waith	27
Atodiad 1: Rheoliadau drafft Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Pecynwaith a Gwastraff Pecynwaith) [2024]	28

1. Crynodeb gweithredol

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Gweinyddiaethau Datganoledig Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban (y cyfeirir atyn nhw yma wedi hyn fel y Gweinyddiaethau Datganoledig) wedi ymrwmo i ddiogelu'r amgylchedd ac maent i gyd wedi nodi eu bwriad cryf i gyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) dros becynwaith. Bydd EPR yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau dalu costau llawn delio â'r pecynwaith y maen nhw'n ei gyflenwi a'i ddefnyddio pan fydd yn mynd yn wastraff. Sail y polisi hwn yw gwella effeithlonrwydd trwy roi cyfrifoldeb ar fusnesau am effaith amgylcheddol eu pecynwaith, a hynny er mwyn cymell ailgylchadwyedd ac aildefnyddio pecynwaith, ac yn ei dro hybu mwy o ailbroesu domestig a gwelliannau ac arbedion cyffredinol yn y system.

Rydyn ni wedi cyhoeddi dwy ddogfen ymgynghori yn 2019 a 2021 a oedd gyda'i gilydd yn amlinellu'n cynigion ar gyflwyno EPR dros becynwaith ledled y Deyrnas Unedig. Cadarnhaodd ymateb y Llywodraeth a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022 sut rydyn ni'n bwriadu gweithredu EPR dros becynwaith. Gellir dod o hyd i hyn yma: [Templed ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad EPR \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk).

Ers cyhoeddi Ymateb y Llywodraeth, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi bod yn gweithio'n agos i ddatblygu'r Rheoliadau drafft sy'n gweithredu'r diwygiadau hyn. Ein hamcan yw sicrhau bod y diwygiadau hyn yn cyflawni newid parhaus. Ar ôl myfyrio ar adborth y diwydiant, penderfynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ohirio taliadau'r EPR dros becynwaith rhwng Hydref 2024 a Hydref 2025. Bydd gohirio taliadau pecynwaith am 12 mis yn rhoi:

- Amser ychwanegol i'r diwydiant i baratoi at y gofynion newydd, a allai gynnwys adolygu a gwella'r defnydd presennol ar becynwaith.
- Mwy o gyfle i'r diwydiant a'r awdurdodau lleol fod yn rhan o ddylunio'r cynllun.
- Mwy o amser i'r awdurdodau lleol a'r cwmnïau rheoli gwastraff i addasu'r gwasanaethau cyfredol a chyflwyno gwasanaethau effeithlon ac effeithiol newydd ar gyfer EPR.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn dal wedi ymrwmo i ddiwygiadau pecynwaith sy'n gweithio i fusnes, yr amgylchedd a'r economi cyfan. Mae'r ymgynghoriad hwn bellach yn rhannu'r Rheoliadau drafft sy'n gweithredu EPR dros becynwaith, fel y nodwyd yn Ymateb y Llywodraeth ym mis Mawrth 2022. Bydd y Rheoliadau drafft hyn yn gymwys ledled y Deyrnas Unedig.

Rydyn ni'n gofyn am sylwadau ar y testun drafft i sicrhau bod y Rheoliadau drafft yn cyflawni'r bwriadau polisi a nodwyd yn Ymateb y Llywodraeth, gan greu rhwymedigaethau clir ac ymarferol yn weithredol. Mae'r newidiadau yn y bwriadau polisi hynny'n fach iawn ac fe'u nodir yn Adran 3. Datblygwyd y Rheoliadau drafft yn dilyn ymgysylltu â'r diwydiant. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn rydyn ni'n cynllunio gweithdai cyd-ddylunio gyda rhanddeiliaid ar draws y gadwyn werth a fydd yn mynd i'r afael â meysydd technegol

manylaf y Rheoliadau drafft. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu am y gweithdai hyn maes o law.

2. Rhagymadrodd

Diben yr ymgynghoriad

Mae gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau Datganoledig nodau uchelgeisiol i amddiffyn ein hinsawdd, gyrru twf gwyrdd, a lleihau gwastraff diangen. Mae ein cynlluniau ar gyfer EPR dros becynwaith yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni'r nodau hyn. Mae'r system bresennol o gyfrifoldeb cynhyrchwyr dros becynwaith ar waith ledled y Deyrnas Unedig ers 1997, ond nid yw erioed wedi gosod costau net llawn gwaredu gwastraff pecynwaith ar y busnesau sy'n cyflenwi ac yn defnyddio pecynwaith.

Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, a'r Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon ymgynghoriadau ar y cyd yn 2019 ([Ymgynghoriad ar ddiwygio system cyfrifoldeb cynhyrchwyr y Deyrnas Unedig dros becynwaith \(defra.gov.uk\)](#)) a 2021 ([Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros Becynwaith - Defra - Citizen Space](#)) yn nodi cynigion i ddiwygio system cyfrifoldeb cynhyrchwyr dros becynwaith. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ddau ymgynghoriad yn gefnogol i'r cynigion a gyflwynwyd. Yn ymateb y Llywodraeth a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022 ([Templed ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad ar yr EPR \(publishing.service.gov.uk\)](#)) cadarnhawyd sut y bwriedir gweithredu'r diwygiadau i system cyfrifoldeb cynhyrchwyr dros becynwaith.

Rydym bellach yn ymgynghori ar y Rheoliadau drafft yn Atodiad 1, a fydd yn gweithredu'r EPR dros becynwaith ledled y Deyrnas Unedig yn gyson ag Ymateb y Llywodraeth ym mis Mawrth 2022. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sy'n gweithredu egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' drwy ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr sydd dan rwymedigaeth dalu cost net lawn casglu ac ailgylchu eu pecynwaith pan fydd yn troi'n wastraff. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi cydweithio i ddatblygu'r Rheoliadau drafft hyn. Mae'r Rheoliadau ar ffurf drafft a bydd angen newidiadau ac adolygu pellach cyn eu cwblhau.

Gan fod y bwriad a'r amcanion polisi cyffredinol eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad, nid ymgynghori ar y materion hyn yw diben yr ymarfer hwn. Yn hytrach, diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn ar sut mae'r dull a nodwyd yn ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ym mis Mawrth 2022 wedi'i adlewyrchu yn y Rheoliadau drafft hyn, a chael adborth ar ymarferoldeb y trefniadau gweithredu. Byddem yn arbennig o ddiolchgar am gael eich barn ar ba mor eglur y mae'r Rheoliadau drafft hyn yn diffinio cyfrifoldebau cynhyrchwyr dan rwymedigaeth, allforwyr, ailbroseswyr, cynlluniau cydymffurfio, awdurdodau lleol a chynghorau, Gweinyddydd y Cynllun, a'r rheoleiddwyr, gan nodi unrhyw amwysedd yn y testun y gellid ei wella. Bydd ymatebion sy'n mynd y tu hwnt i'r

cwestiynau a ofynnir yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael eu nodi a'u hystyried fel rhan o waith yn y dyfodol ar y diwygiadau ond heb eu cynnwys yn yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Er hynny, mae sawl maes rydyn ni'n bwriadu eu datblygu ymhellach gyda busnesau a rhanddeiliaid ehangach, yn enwedig o'r sectorau casglu a phecynnu gyda'r bwriad o ddiwygio o bosibl yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys materion fel perchnogaeth pecynwaith wrth iddo fynd trwy gyfnodau casglu, didoli ac ailbrosesu ac fel y nodwyd yn Ymateb y Llywodraeth ym mis Mawrth 2022, y polisi ar aildefnyddio pecynwaith a thaliadau am reoli gwastraff busnes. Mae'r rhain y tu allan i gwmpas y Rheoliadau drafft presennol gan nad oes modd eu cyflawni cyn cyflwyno'r diwygiadau cychwynnol, ond rydyn ni'n croesawu mewnbwn ar y materion hyn i lywio penderfyniadau rheoleiddio, polisi a chyflawni yn y dyfodol.

Rydyn ni hefyd yn bwriadu gosod rheoliadau ar wahân i ddiwygio Rheoliadau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Pecynwaith (Gwastraff Pecynwaith) 2007 i gyflwyno targedau ailgylchu gwastraff pecynwaith ar gyfer 2024. Bydd targedau ailgylchu ar gyfer 2025-2030 yn cael eu cynnwys yn fersiwn terfynol y Rheoliadau drafft yr ydym yn ymgynghori arnynt.

Does dim Asesiad Effaith newydd wedi'i baratoi ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Cyflwynodd Asesiad Effaith Terfynol (FIA) Mawrth 2022, sydd i'w weld yn yr [Asesiad Effaith \(publishing.service.gov.uk\)](#), y costau a'r buddion bryd hynny, gan adeiladu ar y dadansoddiad yn yr Asesiadau Effaith a gafwyd gydag ymgynghoriadau 2019 a 2021, ac adborth gan y Pwyllgor Polisi Rheoleiddiol. Byddwn yn cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddarau o'r FIA pan fydd y Rheoliadau drafft yn cael eu gosod yn y Senedd.

Fel yn achos yr ymgynghoriadau blaenorol, mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal ar y cyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon. Oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau at 'Llywodraeth' yn gyfeiriadau at Lywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon.

Mae cyfeiriadau at y Gweinidogion yn gyfeiriadau at Weinidogion pob gweinyddiaeth. Mae cyfeiriadau at 'y rheoleiddiwr' neu 'reoleiddwyr' yn gyfeiriadau at Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Asiantaeth yr Amgylchedd (EA), Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon (NIEA), Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) a'r Awdurdod Labelu, oni nodir yn wahanol.

Mae cyfeiriadau at "awdurdodau lleol" (y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau drafft (rheoliad 2(1) fel 'awdurdod perthnasol') yn cynnwys awdurdod casglu gwastraff, awdurdod gwaredu gwastraff, cyngor dosbarth yng Ngogledd Iwerddon a Chyngor Ynysoedd Sili.

Y gynulleidfa

Mae croeso i ymatebion i'r ymgynghoriad hwn oddi wrth:

- Busnesau sy'n ymwneud â dylunio, cynhyrchu a manylebu pecynwaith.
- Busnesau sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion ac yn rhoi'r cynhyrchion hyn mewn pecynwaith, neu sy'n cael cynhyrchion wedi'u rhoi mewn pecynwaith ar eu rhan, ac sy'n gosod y cynhyrchion hyn ar farchnad y Deyrnas Unedig.
- Manwerthwyr, marchnadleoedd ar-lein a mewnforyr cynhyrchion wedi'u pecynnu a phecyntwaith heb ei lenwi.
- Awdurdodau lleol
- Cynlluniau cydymffurfio pecynwaith.
- Sefydliadau sy'n ymwneud â rheoli ac ailgylchu gwastraff pecynwaith gan gynnwys cwmnïau rheoli gwastraff, broceriaid, allforyr ac ailbroseswyr.
- Sefydliadau eraill fel sefydliadau proffesiynol a sefydliadau aelodaeth, Sefydliadau Anllywodraethol, ymgynghorwyr a sefydliadau elusennol sydd â buddiant mewn pecynwaith a sut mae gwastraff pecynwaith yn cael ei reoli yn y Deyrnas Unedig.
- Aelodau o'r cyhoedd.

Ymateb i'r ymgynghoriad

Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn yn un o'r ffyrdd canlynol:

Ar-lein drwy ddefnyddio hyb ymgynghori Citizen Space yn Defra
<https://consult.defra.gov.uk/>

I hwyluso'r gwaith dadansoddi, byddai'n well gennyn ni gael ymatebion trwy lwyfan Citizen Space, ond mae opsiynau eraill ar gael isod os oes eu hangen:

Drwy'r ebost at: packaging@defra.gov.uk

Drwy ysgrifennu at:

Collection and Packaging Reform
Extended Producer Responsibility Team, Defra
Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Sylwch: Rhaid i unrhyw ymatebion a anfonir drwy'r post fod wedi **cyrraedd** y cyfeiriad uchod erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad (9 Hydref) er mwyn cael eu cyfrif. Ni fydd unrhyw ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu dadansoddi. Er mwyn sicrhau bod

eich ymateb yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad, ystyriwch ymateb ar-lein trwy CitizenSpace.

Defra sy'n rheoli'r broses ymgynghori ar ran y Llywodraeth.

Bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn cael gweld yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddarperir drwy hyb ymgynghori CitizenSpace. Os hoffech anfon copi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad at Lywodraeth Cymru a/neu Lywodraeth yr Alban, yna anfonwch y rhain drwy'r epost at:

Cymru: wastestrategy@gov.wales

Yr Alban: producerresponsibility@gov.scot

Os ydych chi'n ymateb o Ogledd Iwerddon, gofalwch fod copi o'ch ymateb hefyd yn cael ei anfon at EPRTeam@daera-ni.gov.uk. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu rhannu gyda'r Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon.

Y cyfnod ymgynghori

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhedeg o 28 Gorffennaf ac yn cau ar 9 Hydref 2023

Ar ôl yr ymgynghoriad

Byddwn yn adolygu'r ymatebion sy'n dod i law ac yn gwneud newidiadau yn y Rheoliadau drafft fel y bo'n briodol. Bydd y Rheoliadau drafft ar gael i'r cyhoedd pan fyddant yn cael eu hysbysu i Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a'r Undeb Ewropeaidd (UE) mewn perthynas â Gogledd Iwerddon i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol. Yn ystod y cyfnod hysbysu, byddwn yn cyhoeddi crynodeb lefel uchel o'r ymatebion.

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau gweld gwybodaeth e.e. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf 2000), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (Rheoliadau 2004) a Deddf Diogelu Data 2018 (Deddf 2018).

Os ydych chi am i wybodaeth, gan gynnwys data personol, rydych chi'n ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, dywedwch hynny'n glir mewn ysgrifen wrth gyflwyno'ch ymateb i'r ymgynghoriad ac esboniwch pam mae angen cadw'r manylion hyn yn gyfrinachol.

Os cawn ni gais am ddatgelu gwybodaeth o dan Ddeddf 2000 neu Reoliadau 2004, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond oherwydd y gyfraith allwn ni ddim rhoi sicrwydd bod modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, yn ddo'i hun, yn cael ei ystyried yn gais am gyfrinachedd.

Defra yw'r rheolwr data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol y byddwch chi'n ei roi, ac mae Siarter Gwybodaeth Personol Defra, sy'n rhoi manylion eich hawliau mewn perthynas â thrin eich data personol, i'w gweld yma:

<https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter>

Cydymffurfio â'r egwyddorion ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol â'r Egwyddorion Ymgynghori a nodir yng nghanllawiau'r Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio sydd ar gael yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch nhw:

Drwy'r ebost at: consultation.coordinator@defra.gov.uk

Neu mewn ysgrifen at:

Consultation Co-ordinator
Packaging Extended Producer Responsibility Team
Resources & Waste, Defra
Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Amdanoch chi

Mae ystod eang o fusnesau, sefydliadau ac unigolion yn ymwneud â phhecynwaith neu'n cymryd diddordeb ynddo. Bwriad y cwestiynau isod yw amgyffred yr ystod hon a rhoi eich ymatebion mewn persbectif ag ymatebion ymatebwyr eraill.

C1. Fyddech chi'n hoffi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?

Byddwn / Na fyddwn

Os ydych chi wedi ateb 'Byddwn', rhowch eich rheswm.

C2. Eich enw chi?

C3. Eich cyfeiriad ebost?

Mae hyn yn ddewisol, ond os byddwch yn nodi'ch cyfeiriad ebost byddwch yn gallu dychwelyd i olygu'ch ymateb i'r ymgynghoriad yn CitizenSpace unrhyw bryd nes ichi ei gyflwyno. Byddwch hefyd yn cael neges gydnabod pan fyddwch yn cyflwyno ymateb wedi'i gwblhau.

C4. Pa un yw'r disgrifiad gorau ohonoch chi? Rhowch enw'r sefydliad/busnes rydych chi'n ei gynrychioli a'i faint/nifer y staff yn fras (lle bo hynny'n gymwys).

(Ticiwch un opsiwn. Os oes nifer o gategoriâu yn gymwys, dewiswch yr un sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli yn eich ymateb.)

- Sefydliad sy'n cynrychioli busnesau/corff masnach
- Dylunydd/gweithgynhyrchydd/trawsnewidydd pecynwaith
- Gweithgynhyrchydd cynnyrch/perchennog brand/llanwr pecynwaith
- Mewnforiwr cynhyrchion wedi'u pecynnu neu becynwaith heb ei lenwi
- Dosbarthwr
- Manwerthwr gan gynnwys Marchnadle Ar-lein
- Awdurdod lleol
- Cwmni rheoli gwastraff
- Ailbroesydd/ailgylchydd gwastraff pecynwaith yn y Deyrnas Unedig
- Allforiwr gwastraff pecynwaith ar gyfer ailgylchu
- Sefydliad anllywodraethol
- Elusen neu fenter gymdeithasol
- Ymgynghoriaeth
- Academaidd neu ymchwil
- Unigolyn
- Arall
- Os ydych wedi ateb 'Arall', rhowch y manylion:

C5. Bydd angen i'r Llywodraeth ddeall anghenion defnyddwyr er mwyn adeiladu gwasanaethau digidol ar gyfer yr EPR dros becynwaith. A hoffech i'ch manylion cyswllt gael eu hychwanegu at banel defnyddwyr ar gyfer yr EPR dros becynwaith er mwyn inni eich gwahodd i gymryd rhan mewn ymchwil defnyddwyr (e.e., arolygon, gweithdai a chyfweliadau) neu i brofi gwasanaethau digidol wrth iddyn nhw gael eu dylunio a'u hadeiladu?

Gallwch ddarllen [Hysbysiad Preifatrwydd](#) sy'n esbonio sut mae'ch gwybodaeth yn cael ei diogelu mewn perthynas ag ymchwil defnyddwyr, yr hyn y byddwn ac na fyddwn yn ei wneud â hi, pa mor hir y bydd yn cael ei chadw a sut i optio allan o ymchwil defnyddwyr os byddwch yn newid eich meddwl

Hoffwn / Na hoffwn

3. Esbonio'r Rheoliadau drafft

Trosolwg o'r ddeddfwriaeth sy'n rhoi diwygiadau'r EPR dros becynwaith ar waith

Cyflwynwyd blociau adeiladu cyntaf cynllun yr EPR dros becynwaith gan Reoliadau Gwastraff Pecynwaith (Adrodd am Ddata) (Lloegr) 2023 sydd i'w gweld yma: [Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith \(Adrodd am Ddata\) \(Lloegr\) 2023 \(legislation.gov.uk\)](#). Diwygiwyd y rhain gan Reoliadau Gwastraff Pecynwaith (Adrodd am Ddata) (Lloegr) (Diwygio) 2023 sydd i'w gweld yma: [Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith \(Adrodd am Ddata\) \(Lloegr\) \(Diwygio\) 2023 \(legislation.gov.uk\)](#). Ceir rheoliadau cyfatebol yn y canlynol:

- Cymru – [Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith \(Casglu ac Adrodd am Ddata\) \(Cymru\) 2023](#)
- Gogledd Iwerddon – [Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith \(Adrodd am Ddata\) \(Rhif 2\) \(Gogledd Iwerddon\) 2023 \(legislation.gov.uk\)](#) a [Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith \(Adrodd am Ddata\) \(Rhif 2\) \(Diwygio\) \(Gogledd Iwerddon\) 2023 \(legislation.gov.uk\)](#).
- Yr Alban – [Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith \(Adrodd am Ddata\) \(Yr Alban\) 2023 \(legislation.gov.uk\)](#) a [Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith \(Adrodd am Ddata\) \(Yr Alban\) \(Diwygio\) 2023 \(legislation.gov.uk\)](#).

Cyfeirir at yr holl Offerynnau Statudol hyn gyda'i gilydd fel 'Rheoliadau Data 2023' yn y ddogfen ymgynghori hon.

Mae Rheoliadau Data 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr dan rwymedigaeth gasglu a/neu adrodd am ddata o fis Mawrth 2023 yn achos Lloegr, 28 Chwefror 2023 yn achos yr Alban a Gogledd Iwerddon a 17 Gorffennaf 2023 yn achos Cymru (neu o fis Ionawr 2023 os yw'r data ar gael ym mhob gwlad) ar faint a math y pecynwaith y maen nhw'n ei gyflenwi. Mae angen y data hwn i gyfrifo'r ffioedd gwaredu ar gyfer casglu a didoli pecynwaith i'w ailgylchu a chasglu a gwaredu pecynwaith mewn gwastraff gweddilliol) y bydd yn ofynnol i'r cynhyrchwyr hyn eu talu. Bydd y data hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo rhwymedigaethau ailgylchu'r cynhyrchwyr.

Mae Rheoliadau drafft Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Pecynwaith a Gwastraff Pecynwaith) [2024] ("y Rheoliadau drafft") yn nodi rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr i barhau i gasglu ac adrodd am ddata. Mae'r gofynion hyn yn adlewyrchu'r gofynion yn Rheoliadau Data 2023 ond gyda rhai diwygiadau pellach i fynd i'r afael â bylchau bach yn y rhwymedigaethau ynglŷn â chasglu ac adrodd am ddata. Mae'r Rheoliadau drafft hefyd yn cynnwys darpariaethau i wneud y canlynol:

- Caniatáu penodi Gweinyddydd i'r Cynllun.

- Caniatáu i Weinyddydd Cynllun godi ffioedd ar gynhyrchwyr dan rwymedigaeth i dalu costau'r awdurdodau lleol ar gyfer rheoli gwastraff cartref a phecynwaith wedi'i finio, costau ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, a'u costau gweithredol.
- Gosod targedau ailgylchu ar gynhyrchwyr yn ymdrin â phob math o wastraff pecynwaith (h.y. pecynwaith cynradd, pecynwaith cludo, pecynwaith eilaidd, pecynwaith trydyddol; pecynwaith cartref a phecynwaith heblaw pecynwaith cartref).
- Ei gwneud yn ofynnol i rai mathau o becynwaith gael ei labelu i ddynodi bod modd ei ailgylchu. Cyflwyno gofyniad gorfodol i gymryd pecynwaith yn ôl a'i ailgylchu yn achos cwpanau cyfansawdd sy'n seiliedig ar ffibr.
- Ei gwneud yn ofynnol i bob ailbroesydd ac allforiwr gwastraff pecynwaith gofrestru gyda rheoleidiwr a chyflyno adroddiadau am ddata, ac, i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny, ennill achrediad a rhoi tystiolaeth ailgylchu.
- Galluogi'r rheoleiddwyr i fonitro'r gydymffurfiaeth a gorfodi'r Rheoliadau drafft yn effeithiol.

Cyhyd ag y ceir cymeradwyaeth y Senedd, bydd Rheoliadau Data 2023 yn cael eu disodli gan y Rheoliadau drafft hyn, a fydd hefyd yn dirymu Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Pecynwaith) 2007 (Rheoliadau 2007) a Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Pecynwaith a Gwastraff Pecynwaith) (Gogledd Iwerddon) 2007 (Rheoliadau 2007 Gogledd Iwerddon).

Newidiadau yn y Rheoliadau drafft o'r bwriadau polisi a nodwyd yn Ymateb y Llywodraeth

Wrth ddatblygu'r Rheoliadau drafft, rydyn ni wedi gwneud nifer fach o newidiadau ac wedi ychwanegu manylion i egluro'r bwriadau polisi a nodwyd yn Ymateb y Llywodraeth a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022

- Oherwydd y newid yn nyddiad gweithredu Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) yr Alban i fis Hydref 2025, bydd erthyglau'r cynllun yn dod o dan yr un rhwymedigaethau o dan yr EPR dros becynwaith â chynwysyddion diodydd sydd o fewn cwmpas DRS Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, hyd nes y bydd y DRS ar waith. Bydd y newid hwn hefyd yn gofyn am ddiwygiad pellach i Reoliadau Data 2023
- Cynigiwyd cyflwyno targedau ailddefnyddio paledi pren o 2024 ymlaen. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda'r sector coed i ddatblygu opsiynau ac rydyn ni'n bwrw ymlaen â hyn fel rhan o'n gwaith ehangach ar bolisi ailddefnyddio pecynwaith, felly does dim rhwymedigaethau wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau drafft hyn. Bydd y Rheoliadau drafft yn cynnwys targedau ailgylchu ar gyfer pecynwaith pren, a byddwn yn ceisio cyflwyno targedau ailddefnyddio o 2026 ymlaen.
- Rydyn ni wedi mabwysiadu diffiniad eang o becynwaith cartref gan nad yw wedi bod yn bosibl datblygu'r canllawiau a'r protocolau sy'n angenrheidiol i gynnal dosraniad mwy cywir. Er hynny, yn dilyn pryderon a godwyd gan gynhyrchwyr, rydym wrthi'n archwilio

a oes modd mireinio'r diffiniad ai peidio. Mae manylion pellach i'w gweld yn yr adran ganlynol.

- Mae'r cynnig ynglŷn â 'phrawf cymhwysedd gweithredwr' wedi dod yn 'brawf Person Addas a Phriodol' (FPP) i gyd-fynd yn well â'r cyfundrefnau trwyddedu presennol (gweler rheoliad drafft 106). Bydd hyn yn caniatáu i'r rheoleiddiwr benderfynu a yw ymgeisydd yn berson addas a phriodol at ddibenion y Rheoliadau drafft hyn, o ystyried yr amodau a bennir.
- O ran y cynnig na fydd allforwyr yn gallu rhoi Nodiadau Ailgylchu Allforio Gwastraff Pecynwaith (PERNs) tan ar ôl cael cadarnhad bod y gwastraff pecynwaith wedi dod i law o'r safleoedd terfynol, rydym wedi egluro, er y bydd angen prawf ei fod wedi dod i law, na fydd angen cyflwyno hyn mewn amser real er mwyn rhoi PERNs. Rhaid cael prawf bod y pecynwaith wedi dod i law a rhaid trefnu ei fod ar gael i'w archwilio gan y rheoleiddiwr.
- Nid yw gofynion gorfodol ar gyfer archwilio safleoedd tramor gan weithredwyr trydydd parti wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau drafft ond fe fyddan nhw'n cael eu hystyried fel rhan o ddiwygiadau yn y dyfodol. Roedd yna faterion cyfreithiol ac ymarferol y mae angen eu datblygu ymhellach er mwyn i'r cynnig hwn gael ei roi ar waith.
- Bydd rhaid i gynhyrchwyr sy'n hunanreoli gwastraff pecynwaith roi gwybod ym mha wlad yn y Deyrnas Unedig y cafodd y gwastraff ei gasglu a'i anfon i'w ailgylchu. Os byddan nhw'n ei gasglu mewn un wlad a'i anfon i wlad arall yn y Deyrnas Unedig i'w ailgylchu, byddan nhw hefyd yn rhoi gwybod i ba wlad y cafodd ei anfon. Mae hyn bellach yn cynnwys pecynwaith 'postio'n-ôl'.
- Yn unol ag Ymateb y Llywodraeth, byddwn yn rhoi'r gallu i Weinyddydd y Cynllun addasu'r taliad am gostau gwaredu i awdurdod lleol lle maen nhw o'r farn nad yw awdurdod yn cyflawni'r gofynion yn erbyn meincnodau cost rhesymol a pherfformiad gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Byddwn yn cyflwyno terfyn ar faint o arian y caiff Gweinyddydd y Cynllun ei dynnu o daliadau'r awdurdodau lleol mewn perthynas ag asesiadau effeithiolrwydd. Ni chaiff Gweinyddydd y Cynllun leihau'r costau gwaredu y mae gan yr awdurdod perthnasol hawl i'w hadennill i swm sy'n llai nag 80% o'r costau gwaredu effeithlon a aseswyd. Gellir adolygu'r terfyn hwn yn y dyfodol.
- Bydd cynhyrchwyr sy'n gallu dangos eu bod wedi casglu ac wedi ailgylchu gwastraff pecynwaith nad yw'n cael ei gasglu'n gyffredin gan awdurdodau lleol i'w ailgylchu neu sydd wedi casglu ac wedi ailgylchu gwastraff pecynwaith o system ailddefnyddio weithredol, yn gallu gosod y tunellau hyn yn erbyn eu rhwymedigaethau ynglŷn â chostau gwaredu, a thrwy hynny leihau eu ffioedd gwaredu.

Beth sydd heb ei gynnwys yn y Rheoliadau drafft a diwygiadau yn y dyfodol

Nid yw'r Rheoliadau drafft yn cynnwys pob maes yr hoffem ystyried ei ddiwygio, gan gynnwys materion a godwyd gan y rhanddeiliaid. Mewn rhai achosion, y rheswm am hyn yw efallai na fydd angen dull rheoleiddio. Mewn achosion eraill, y rheswm yw bod ein dull rheoleiddio yn haeddu ystyriaeth bellach gyda rhanddeiliaid allanol, ac felly mae'r rhain yn faterion y mae'n well eu hystyried ar gyfer rheoliadau a fersiynau o'r EPR yn y dyfodol.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn parhau i weithio gyda'r rhanddeiliaid ar draws y sectorau casglu a pheycynnu i adolygu'r materion hyn yn fanylach. Mae'r rhain yn cynnwys, ymysg pethau eraill, sicrwydd i gynhyrchwyr y bydd yr awdurdodau lleol yn gwario taliadau'r cynhyrchwyr ar wasanaethau gwastraff pecynwaith, trefniadau llywodraethu Gweinyddydd y Cynllun i ddarparu ar gyfer mwy o gyfranogiad gan y sector, perchnogaeth y cynhyrchwyr ar ddeunyddiau, rhwymedigaethau ailddefnyddio pecynwaith, a thaliadau ar gyfer rheoli gwastraff pecynwaith oddi wrth fusnesau.

Rhoddir rhagor o ystyriaeth i le modelau casglu ac ailgylchu dolen gaeedig. Efallai y bydd cynhyrchwyr sy'n gweithredu modelau o'r fath eisoes yn ysgwyddo costau rheoli eu pecynwaith wrth iddo droi'n wastraff, felly byddwn yn archwilio a ddylai unrhyw esemptiadau pellach i fodolau o'r fath rhag ffioedd gwaredu fod yn gymwys ac os felly, pa safonau perfformiad ac adrodd y byddai angen eu bodloni i haeddu esemptiad, ac unrhyw effeithiau y gallai esemptiadau o'r fath eu cael ar ganlyniadau eraill EPR, megis cynyddu'r ailddefnyddio ar becynwaith a gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i reoli gwastraff pecynwaith yr awdurdodau lleol.

Byddwn ni hefyd yn parhau i edrych ar welliannau i'r diffiniad o becynwaith cartref, gan sefydlu gweithgor gyda'r cynhyrchwyr i ddatblygu hyn ymhellach. Yn ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad 2022 dywedodd y Llywodraeth y byddai'n gweithio tuag at ddull a fyddai'n caniatáu i'r cynhyrchwyr adrodd faint o'u pecynwaith cynradd a'u pecynwaith cludo oedd yn debygol o ddod i ben mewn cartrefi. Nodwyd hefyd pe na bai'n ymarferol sefydlu'r canllawiau a'r protocolau angenrheidiol ar gyfer dechrau'r EPR, y dybiaeth fyddai y byddai'r holl becynwaith cynradd a'r holl becynwaith cludo yn cael ei ystyried yn becynwaith cartref ac eithrio lle gallai'r cynhyrchwyr ddangos tystiolaeth glir ac argyhoeddiadol nad oedd hyn yn wir.

Yn dilyn rhagor o waith yn 2022, daeth y Llywodraeth i'r casgliad nad oedd datblygu canllawiau a phrotocolau cynhwysfawr ar gyfer dechrau'r EPR yn ymarferol. Felly, mae Rheoliadau Data 2023 a'r Rheoliadau drafft yn diffinio pecynwaith cartrefi fel pecynwaith cynradd neu becynwaith cludo nad yw'n cael ei gyflenwi i fusnes sy'n ddefnyddiwr terfynol y pecynwaith hwnnw. Mae hyn wedi'i feirniadu am ddsbarthu rhywfaint o becynwaith, fel casgenni cwrw mawr neu drymiau o gemegolion diwydiannol, fel pecynwaith cartref. Rydym am fynd i'r afael â'r pryder hwn, ond mae angen hefyd sicrhau bod y Rheoliadau yn dal yn glir ac yn orfodadwy nes bod modd datblygu canllawiau a phrotocolau manylach.

Gan hynny, rydyn ni'n ystyried diwygio'r Rheoliadau drafft i hepgor pecynwaith ar gynnyrch sydd wedi'i fwriadu at ddibenion busnes yn unig. Byddai hyn yn dal yn asesiad deuaidd, gyda'r holl becynwaith a allai ddod i ben mewn biniau cartref yn cael ei ddsbarthu fel pecynwaith cartref, oni bai bod y cynhyrchwyr yn gallu darparu tystiolaeth ei fod wedi'i gyflenwi'n uniongyrchol i ddefnyddiwr busnes terfynol, ond byddai'n caniatáu i becynwaith cynradd, sydd wedi'i fwriadu at ddibenion busnes yn unig gael ei hepgor, hyd yn oed os yw'n cael ei gyflenwi trwy drydydd parti fel dosbarthwr. Os yw'n ymarferol, bydd y Llywodraeth yn gweithio tuag at ddull adrodd o'r fath i fod yn gymwys ar gyfer blwyddyn adrodd 2024.

C6. Ydych chi'n cytuno y dylen ni weithio tuag at hepgor pecynwaith sydd wedi'i fwriadu at ddibenion busnes yn unig rhag talu ffioedd costau gwaredu cartref?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Mae Defra hefyd yn bwriadu llunio cynllun gweithredu economi cylchol ar gyfer Lloegr gan adeiladu ar allbynnau'r gyfres ddiweddar o sbrintiau gweledigaeth. Bydd hyn yn darparu map ffordd ar gyfer gweithredu'r EPR dros becynwaith, gan gynnwys y cydadwaith rhwng yr EPR a pholisïau cysylltiedig fel Cynlluniau Dychwelyd Ernes ledled y Deyrnas Unedig, cyflwyno Orlhain Gwastraff Digidol, a gweithredu Casgliadau Cyson yn Lloegr.

Trosolwg o'r Rheoliadau drafft

Fel y nodwyd uchod, trwy'r ymgynghoriad hwn rydyn ni'n gofyn am sylwadau ar y canlynol:

- Eglurder y diffiniadau o'r cyfrifoldebau a roddir ar gynhyrchwyr, allforwyr, ailbroseswyr, cynlluniau cydymffurfio, Gweinyddydd y Cynllun a'r rheoleiddwyr, yr ystyriaethau allweddol i'r awdurdodau lleol a nodi unrhyw bwyntiau amwysedd. Rydyn ni'n gofyn a yw'r Rheoliadau drafft yn glir, gan geisio deall a yw'r Rheoliadau yn creu rhwymedigaethau amlwg a dealladwy i'ch sefydliad chi,
- Dichonoldeb y prosesau gweithredol sy'n ofynnol i gyflawni'r rhwymedigaethau a nodir yn y Rheoliadau drafft fel y maen nhw'n gymwys i'ch sefydliad chi,
- Cyflawnrwydd y Rheoliadau drafft fel sail ar gyfer gweithredu'r EPR dros becynwaith yn unol â'r bwriad polisi a gadarnhawyd, ac
- Unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r Rheoliadau drafft yn gyffredinol.

Nid yw'r Rheoliadau drafft ar hyn o bryd yn cynnwys unrhyw flynyddoedd cychwyn ond maen nhw'n cynnwys dyddiadau a misoedd, fel bod y cylch adrodd data yn glir.

Mae'r adrannau a ganlyn yn amlinellu'r rhwymedigaethau lefel uchel ar gynhyrchwyr, Gweinyddydd y Cynllun a'r rheoleiddwyr. Dilyni'r pob adran gan gwestiynau i ofyn am adborth. Atebwch y cwestiynau hynny sy'n gymwys i'ch sefydliad chi. Dydyn ni ddim yn disgwyl i'r holl ymatebwyr ateb yr holl gwestiynau. Bydd ymatebion sy'n mynd y tu hwnt i'r cwestiynau hyn yn bwydo i mewn i waith ehangach ar weithredu a gwella'r diwygiadau ynglŷn â chasglu a phecyntwaith yn barhaus. Rhoddir cyfeiriadau at adrannau perthnasol o'r Rheoliadau drafft (sydd yn eu tro yn cyfeirio at Atodlenni perthnasol yn y Rheoliadau drafft) gyda'r cwestiynau.

Rhwymedigaethau'r cynhyrchwyr

(Gweler: y Rheoliadau drafft, Rhan 2, Pennod 1. Ceir diffiniad o gynhyrchwyr yn Rhan 1, rheoliad 8)

Cynhyrchwyr mawr yw'r rhai sydd â throsiant blynyddol o fwy na £2 filiwn, ac sy'n trin mwy na 50 tunnell o becynwaith bob blwyddyn. Bydd yn ofynnol iddyn nhw barhau i adrodd am

eu data am y pecynwaith a gyflenwyd. Ar sail y data hwn, bydd gofyn iddyn nhw gyrraedd targedau ailgylchu, talu ffioedd y rheoleiddwyr ac, os ydyn nhw'n cyflenwi pecynwaith cartref, talu ffi gwaredu a ffi Gweinyddydd y Cynllun.

Cynhyrchwyr bach yw'r rhai sydd â throsiant blynyddol o fwy na £1 miliwn, ac sy'n trin mwy na 25 tunnell o becynwaith bob blwyddyn, ond nad ydyn nhw'n croesi'r trothwy cynhyrchwyr mawr. Bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr bach adrodd am gyfanswm eu tunelli o becynwaith a gyflenwyd yn flynyddol yn ôl y deunydd pecynwaith (gwydr, plastig, etc) a'r math o becynwaith (cynradd, eilaidd, cludo neu drydyddol). Bydd y data hwn yn llywio adolygiadau o'r Rheoliadau yn y dyfodol.

Mae hi hefyd yn ofynnol i rai cynhyrchwyr bach a mawr gasglu ac adrodd am ddata ar becynwaith a gyflenwyd neu a waredwyd ym mhob gwlad yn y Deyrnas Unedig.

C7. Ydy'r Rheoliadau drafft yn sicrhau bod pob math o becynwaith, nad yw'n becynwaith esempt, yn dod o dan rwymedigaethau ailgylchu?

- d. Ydyn
- e. Nac ydyn
- f. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', rhowch fanylion y mathau o becynwaith sydd yn eisiau.

C8. Ydy rhwymedigaethau'r cynhyrchwyr yn glir?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', rhowch y manylion am unrhyw beth sy'n aneglur.

C9. Ydy'r rhwymedigaethau ar bob math o gynhyrchydd yn glir?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', nodwch y math o gynhyrchydd a sut mae'r rhwymedigaeth yn aneglur.

C10. Ydy'r rhwymedigaethau ar bob math o becynwaith yn glir?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', rhowch enghreifftiau o unrhyw fathau o becynwaith lle mae'r rhwymedigaethau'n aneglur.

C11. Oes unrhyw feysydd lle gallai dau gynhyrchydd fod dan rwymedigaeth am yr un eitem o becynwaith?

- a. Oes

- b. Nac oes
- c. Wn i ddim

Os 'oes', rhowch enghreifftiau clir i ddangos hyn.

Cynlluniau cydymffurfio

(Gweler: y Rheoliadau drafft, Rhannau 3, 4 a 5)

Gall cynhyrchwyr gyflawni eu rhwymedigaethau ailgylchu yn uniongyrchol neu ymuno â chynllun cydymffurfio pecynwaith, a fydd yn cymryd y cyfrifoldeb dros gyflawni'r rhwymedigaethau hyn ar ran ei aelodau. (Sylwch: all cynllun cydymffurfio ddim ysgwyddo'r ffi waredu neu'r rhwymedigaeth i dalu ffioedd Gweinyddydd y Cynllun ar ran ei aelodau).

C12. Ydy'r berthynas rhwng Cynllun Cydymffurfiaeth Pecynwaith a'i aelodau'n glir?

- a. Ydy
- b. Nac ydy
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydy', rhowch y manylion am unrhyw beth sy'n aneglur.

C13. Ydy'r rhwymedigaethau y mae Cynllun Cydymffurfiaeth Pecynwaith yn eu hysgwyddo ar ran ei aelodau'n glir?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', rhowch enghreifftiau o rwymedigaethau sy'n aneglur.

Darparu gwybodaeth am ailgylchu a labelu

(Gweler: y Rheoliadau drafft, Rhan 2, Pennod 2)

Mae'r Rheoliadau drafft yn cyflwyno un dull ledled y Deyrnas Unedig o labelu pecynwaith. Rhaid i gynhyrchwyr sy'n berchnogion brandiau, yn bacwyr/llanwyr ac yn fewnforwyr labelu pecynwaith nwyddau cynradd a pheconwiath cludo gan ddefnyddio'r nod 'Ailgylchu Nawr' a'r geiriad priodol (Ailgylchwch neu Peidiwch ag Ailgylchu). Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth glir a chyson i'r defnyddwyr am ba becynwaith y gallant ac na allant ei ailgylchu.

Does dim trothwy de minimis ar gyfer y gofynion hyn a bydd y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i ddsbarthwyr ddarparu gwybodaeth ailgylchu i'r rhai y maen nhw'n cyflenwi pecynwaith iddyn nhw.

Mae'r Rheoliadau drafft yn darparu hyblygrwydd ar gyfer darparu gwybodaeth ailgylchu ar gyfer eitemau pecynwaith penodol sy'n cynnwys pecynwaith wedi'i lenwi, pecynwaith heb ei frandio ac ar gyfer cynhyrchion meddyginiaethol.

Bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi canllawiau cyn i'r Rheoliadau drafft ddod i rym i helpu'r rhai sy dan rwymedigaeth i ddeall a mabwysiadu'r gofynion gorfodol newydd hyn. Rydyn

ni'n bwriadu ymgymryd ag ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid perthnasol i helpu i ddatblygu'r canllawiau.

C14. Ydy'r gofynion ynglŷn a darparu gwybodaeth ailgylchu a labelu pecynwaith yn glir?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Ansicr

Os 'nac ydyn' neu 'ansicr', esboniwch y rheswm dros eich ymateb, gan roi enghreifftiau.

Asesiadau ailgylchadwyedd

(Gweler: y Rheoliadau drafft, Rhan 1, rheoliad 10; Rhan 2, Pennod 1, rheoliad 15(6); Rhan 2, Pennod 2, rheoliad 21 a Phennod 5 ynglŷn â rhwymedigaethau ar gadw cofnodion a chyflwyno adroddiadau)

Bydd y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr sy dan rwymedigaeth i ddarparu gwybodaeth ailgylchu a labelu pecynwaith a/neu i'r rhai sy dan rwymedigaeth i dalu ffioedd gwaredu er mwyn asesu pecynwaith i bennu pa mor ailgylchadwy yw'r pecynwaith. Bydd allbwn yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i lywio graddau'r ffioedd ac yn sail ar gyfer sut mae pecynwaith yn cael ei labelu. I sicrhau bod dull cyffredin yn cael ei ddilyn, bydd rhaid defnyddio methodoleg ragnodedig.

Yn achos cyfran fawr o eitemau pecynwaith, rhagwelir y bydd yr asesiad yn broses syml. Ond, mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gallai rhai busnesau ddymuno rhoi'r gwaith o gynnal asesiadau i rywun ar y tu allan ac mae'n archwilio rôl sefydliadau trydydd parti i helpu gyda hyn. Gallai gwasanaethau a gynigir gan y sefydliadau hyn gynnwys ardstyio hunanasesiad cynhyrchwyr neu gynnal yr asesiad ar eu rhan.

Mae'r Llywodraeth wrthi'n ystyried a oes angen i sefydliadau trydydd parti gael eu hachredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) neu eu cymeradwyo gan Weinyddydd y Cynllun i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal, a bod arferion sicrwydd ansawdd ac archwilio effeithiol ar waith.

C15. Ydych chi'n debygol o ddefnyddio sefydliad trydydd parti i gynnal asesiadau ailgylchu pecynwaith?

- a) Ydw
- b) Nac ydw
- c) Ansicr/heb benderfynu

Rhowch y rheswm dros eich ymateb

C16. Os ydych chi wedi ateb 'ydw' i C14, a ddylid cael cynllun achredu gorfodol ar gyfer sefydliad(au) trydydd parti sy'n cynnal asesiadau ailgylchadwyedd?

- a) Dylid, wedi'u cymeradwyo gan Weinyddydd y Cynllun
- b) Dylid, wedi'u hachredu gan UKAS

- c) Dylid, arall (rhowch y manylion)
- d) Dim cynllun achredu

Esboniwch y rheswm dros eich ymateb.

Cymryd yn ôl ac ailgylchu gorfodol ar gyfer cwpanau cyfansawdd sy'n seiliedig ar ffibr

(Gweler: y Rheoliadau drafft, Rhan 2, Pennod 3. Ceir darpariaethau ynglŷn â chynlluniau cymryd yn ôl yn Rhan 3 hefyd.)

Bydd yn ofynnol i werthwyr cwpanau cyfansawdd sy'n seiliedig ar ffibr sy'n cael eu llenwi wrth y pwynt cyflenwi (e.e. siopau coffi) sy'n cyflogi 10 neu fwy o staff ar sail gyfwerth ag amser llawn gofrestru gyda'u rheoleiddiwr, darparu bin yn eu siopau ar gyfer casglu cwpanau a ddefnyddir, a threfnu i'r cwpanau hyn gael eu hailgylchu. Bydd angen i'r gwerthwyr hyn hefyd adrodd i'w rheoleiddiwr am bwysau'r cwpanau y maen nhw wedi'u gwerthu a phwysau'r cwpanau y maen nhw wedi'u hanfon i'w hailgylchu. Gall gwerthwyr gofrestru gyda rheoleiddiwr yn uniongyrchol neu ddewis cofrestru gyda chynllun cymryd yn ôl. Mae cynllun cymryd yn ôl yn sefydliad trydydd parti a fydd yn ymgymryd â rhwymedigaethau busnes i gofrestru gyda rheoleiddiwr a chyflwyno'r data angenrheidiol. Gallan nhw helpu i ddarparu bin a threfnu i'r cwpanau a ddefnyddir gael eu casglu a'u hailgylchu.

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno'r ymrwymadau gorfodol i fynd â chwpanau yn ôl a'u hailgylchu yn 2025. Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi'r rhwymedigaethau hyn, ond ar hyn o bryd rydyn ni'n ystyried y dull cyfreithiol gorau i gyflwyno'r gofynion hyn yng ngoleuni'r newidiadau yn yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r EPR dros becynwaith. Er hynny, dydyn ni ddim yn bwriadu i sylwedd y rhwymedigaethau cyfreithiol newid yn arwyddocaol. Byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhanddeiliaid y mae'r rhwymedigaethau hyn yn effeithio arnyn nhw dros yr wythnosau nesaf. Cofrestrwch i gael y [cylchlythyr ar CPR](#) i gael y newyddion diweddaraf ar ddiwygiadau, neu cysylltwch â CPREnquiries@defra.gov.uk os oes gan eich busnes ddiddordeb penodol yn y gofynion hyn ac os hoffech fod yn rhan o'r cyfleoedd ymgysylltu hyn.

Sefydlu Gweinyddydd i'r Cynllun

(Gweler: y Rheoliadau drafft, Rhan 6 ac Atodlen 5)

Mae'r Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Ysgrifennydd Gwladol Defra, Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon (DAERA) weithredu ar y cyd i benodi gweinyddydd i'r Cynllun. Rhaid i benderfyniad i ddiddymu penodiad gael ei wneud ar y cyd hefyd.

Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi swyddogaethau'r corff a gofynion allweddol eraill ar Weinyddydd y Cynllun (megis adroddiadau blynyddol). Maen nhw hefyd yn rhoi'r gallu i'r

Gweinidogion perthnasol a DAERA gyfarwyddo Gweinyddydd y Cynllun os yw'n gweithredu neu'n methu â gweithredu mewn ffordd sy'n debygol o gael effaith andwyol ar yr effeithiau amgylcheddol y bwriedir i'r polisi ar yr EPR dros becynwaith eu cyflawni

Fel y nodwyd yn ymateb y Llywodraeth ym mis Mawrth 2022, rydyn ni wedi penderfynu cadw Gweinyddydd y Cynllun, o leiaf i ddechrau, yn y sector cyhoeddus. Mae hyn wedi'i seilio ar gyngor gan Drysorlys EF a ystyriodd y math o swyddogaethau sydd i'w cyflawni gan Weinyddydd y Cynllun a'r ffaith y bydd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr dalu costau gwaredu. Er enghraifft, bernir bod gosod cyfraddau ffioedd gwaredu, casglu ffioedd oddi wrth y cynhyrchwyr, ac yna gwneud taliadau i'r awdurdodau lleol yn swyddogaethau o fath sofran, mewn geiriau eraill swyddogaethau a gyflawnir gan y llywodraeth fel arfer. Rydyn ni'n dal i weithio ar ddyluniad Gweinyddydd y Cynllun gan gynnwys trwy sesiynau cyd-ddylunio ac yn myfyrio ar adborth y rhanddeiliaid a'r arferion gorau rhyngwladol. Rydyn ni'n ystyried pa swyddogaethau y dylai Gweinyddydd y Cynllun eu cyflawni ac y gellid eu cyflawni'n well gan sefydliad dan arweiniad y sector neu drwy gcontract allanol. Mae'r Rheoliadau drafft yn darparu i Weinyddydd y Cynllun ymrwymo i gytundeb(au) gyda sefydliad(au) i gyflawni swyddogaethau ar ei ran. Er hynny, p'un a yw Gweinyddydd y Cynllun yn dewis gwneud hynny ai peidio, ac nid yw natur unrhyw gytundeb wedi'i nodi yn y Rheoliadau drafft, mae'n rhaid i Weinyddydd y Cynllun gael caniatâd y Gweinidogion perthnasol a DAERA cyn gwneud hynny.

Byddwn yn parhau i adolygu rôl Gweinyddydd y Cynllun wrth inni ystyried dulliau polisi pellach megis perchnogaeth ar ddeunyddiau i'r cynhyrchwyr. Cofrestrwch ar gyfer y [cylchlythyr ar CPR](#) i gael y newyddion diweddaraf am ddiwygiadau, neu cysylltwch â CPRenquiries@defra.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth os oes gan eich busnes chi ddi-ddordeb penodol yn hyn ac os hoffech fod yn rhan o'r cyfleoedd ymgysylltu hyn.

C17. Ydy swyddogaethau Gweinyddydd y Cynllun fel y'u hamlinellir yn y Rheoliadau drafft yn glir?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', rhowch enghreifftiau o ble nad yw'r Rheoliadau drafft yn glir.

Cyfrifiad Gweinyddydd y Cynllun o ffioedd gwaredu a gweinyddu i'r cynhyrchwyr

(Gweler: y Rheoliadau drafft, Rhan 6, Pennod 2)

Bydd yn ofynnol i Weinyddydd y Cynllun gyfrifo ffioedd y cynhyrchwyr ar sail faint a'r math o becynwaith cartref y mae'r cynhyrchydd wedi'i gyflenwi a'r costau gwaredu a chostau gweinyddydd y cynllun a aseswyd.

Gweinyddydd y Cynllun sy'n gyfrifol am gyfrifo ffioedd gwaredu'r cynhyrchwyr a fydd yn cynnwys costau'r awdurdodau lleol am waredu gwastraff pecynwaith cartref a gwaredu

gwastraff pecynwaith wedi'i finio, a chostau gwybodaeth gyhoeddus Gweinyddydd y Cynllun.

Os gall cynhyrchydd ddangos eu bod wedi casglu ac wedi ailgylchu gwastraff pecynwaith sydd naill ai ddim yn cael ei gasglu'n gyffredin gan awdurdodau lleol i'w ailgylchu neu wastraff pecynwaith a all gael ei aildddefnyddio o system aildddefnyddio gweithredol, gall Gweinyddydd y Cynllun wrthbwysu'r tunelli hyn yn erbyn rhwymedigaethau'r cynhyrchydd ynglŷn â ffioedd gwaredu, a thrwy hynny leihau eu ffioedd gwaredu. Fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen ymgynghori, rydyn ni wrthi'n ystyried a ddylai unrhyw esemptiadau pellach i fodolau o'r fath rhag talu ffioedd gwaredu fod yn gymwys

Mae'r Rheoliadau drafft hefyd yn cyflwyno gofyniad bod rhaid i Weinyddydd y Cynllun addasu (modiwlleiddio) ffioedd gwaredu yn seiliedig ar gynaliadwyedd amgylcheddol y pecynwaith y mae'r cynhyrchwyr yn ei gyflenwi gan ei gwneud yn ofynnol i Weinyddydd y Cynllun gyhoeddi datganiad polisi sy'n nodi sut y bydd yr addasiadau'n cael eu cymhwyso.

Mae'r Rheoliadau drafft hefyd yn rhoi'r gallu i Weinyddydd y Cynllun, wrth gyfrifo cyfanswm y tunelli o becynwaith, i amcangyfrif faint o becynwaith a gyflenwyd gan gynhyrchwyr nad ydynt wedi bodloni eu rhwymedigaethau adrodd a chofrestru yn llawn. Mae hon yn ddarpariaeth ddewisol sy'n caniatáu i Weinyddydd y Cynllun ystyried diffyg cydymffurfiaeth cynhyrchwyr wrth gyfrifo ffioedd gwaredu'r cynhyrchwyr lle gallai hyn gael effaith sylweddol ar gynhyrchwyr sy'n cydymffurfio. Mae ailgyfrifo costau a ffioedd, fel y nodir isod, yn darparu darpariaeth bellach i Weinyddydd y Cynllun ystyried ac ailgyfrifo ffioedd yn seiliedig ar ddiffyg cydymffurfiaeth o du'r cynhyrchwyr.

Yn ychwanegol, bydd angen i Weinyddydd y Cynllun gyfrifo ffi weinyddol flynyddol cynhyrchydd ar wahân, sef ffi sy'n talu'r costau y mae'r sefydliad yn eu hysgwyrddo wrth gyflawni ei swyddogaethau.

Bydd gofyn i Weinyddydd y Cynllun ddarparu hysbysiadau atebolrwydd i gynhyrchwyr sy dan rwymedigaeth ar gyfer ffioedd gwaredu a ffioedd gweinyddu, gan nodi sut y cyfrifwyd y ffioedd hyn.

C18. Ydy'r Rheoliadau drafft yn caniatáu i Weinyddydd y Cynllun ddosrannu'r ffioedd yn gywir i'r cynhyrchwyr?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', rhowch y manylion pam.

C19. Os yw'ch sefydliad chi'n casglu ac yn ailgylchu gwastraff pecynwaith, ydych chi'n deall a fydech yn gymwys ar gyfer gwrthbwysu symiau o dan y Rheoliadau drafft?

- a. Ydw
- b. Nac ydw
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydw', sut gallai hyn gael ei wneud yn glir?

C20. Ydych chi'n credu y dylai'r darpariaethau ynglŷn a gwrthbwysu symiau gael eu hymestyn fel rhan o ddiwygiadau i'r EPR yn y dyfodol?

- a. Ydw
- b. Nac ydw
- c. Wn i ddim

Os 'ydw', rhowch y manylion ar sut rydych hi'n credu y dylai'r darpariaethau ynglŷn â gwrthbwysu symiau gael eu hymestyn a pham.

C21. Ydy'r Rheoliadau drafft yn darparu mesurau diogelu priodol ar gyfer cynhyrchwyr sy'n cydymffurfio, gan gynnwys o ran yr effaith y gallai diffyg cydymffurfiaeth cynhyrchwyr ei chael ar ffioedd gwaredu'r cynhyrchwyr?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', rhowch fanylion eich pryderon.

Cyfrifiad Gweinyddydd y Cynllun o gostau gwaredu a chostau gweinyddydd y cynllun sydd i'w hadennill oddi ar y cynhyrchwyr

(Gweler: y Rheoliadau drafft, Rhan 6, Pennod 3 (costau gwaredu), Pennod 4 (Costau Gweinyddydd y Cynllun) a Phennod 5 (taliadau i'r awdurdodau perthnasol)

Nid yw'r rheoliadau drafft yn gosod unrhyw rwymedigaethau uniongyrchol ar awdurdodau lleol gan nad yw'r pwerau sylfaenol yn caniatáu hyn. Er hynny, mae'r Rheoliadau drafft yn cyfyngu taliadau i'r awdurdodau lleol i gostau gwasanaethau rheoli gwastraff pecynwaith effeithlon ac effeithiol, gan ddiogelu'r cynhyrchwyr rhag costau gormodol ac annheg.

Rhaid i Weinyddydd y Cynllun asesu costau'r awdurdodau lleol wrth reoli gwastraff pecynwaith cartref o Flwyddyn 1 ymlaen. Mae hyn yn cynnwys asesu costau angenrheidiol, effeithlon gwasanaethau rheoli gwastraff pecynwaith yr awdurdodau lleol. Rhaid i Weinyddydd y Cynllun asesu'r incwm a enillir gan awdurdod lleol drwy werthu gwastraff pecynwaith a thynnu hyn o'i gostau gwaredu effeithlon wrth gyfrifo'r costau net. Os asesir bod awdurdod lleol yn aneffeithiol, ac nad yw'n cyflawni cynllun gwella, caiff Gweinyddydd y Cynllun dynnu costau effeithlon yr awdurdod lleol hwnnw a aseswyd er mwyn hybu effeithiolrwydd yn y gwasanaethau (hyd at 20% o'r costau effeithlon). Wrth asesu effeithiolrwydd gwasanaethau rheoli gwastraff pecynwaith yr awdurdodau lleol, bydd Gweinyddydd y Cynllun yn rhoi cyfle i'r awdurdodau drafod eu hasesiadau effeithiolrwydd a sut y gellid gwella'u gwasanaethau. Bydd Gweinyddydd y Cynllun yn rhoi cyfnod rhesymol o amser i'r awdurdodau gyflawni eu cynlluniau gwella, lle cynhyrchir y rheiny, cyn penderfynu gwneud gostyngiadau yn y taliadau cost effeithlon.

Rhaid i Weinyddydd y Cynllun ddarparu hysbysiadau i'r awdurdodau lleol ar eu hasesiadau o gostau gwaredu a'u taliadau.

Yn ychwanegol, rhaid i Weinyddydd y Cynllun asesu'r costau y mae'n eu talu wrth ddarparu gwasanaethau gwybodaeth gyhoeddus a chyfrifo ar wahân gostau gweinyddydd y cynllun gan adennill y ddau oddi ar y cynhyrchwyr.

C22. Ydy'r Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn glir beth mae'n ofynnol i Weinyddydd y Cynllun ei wneud a'i ystyried wrth asesu costau gwaredu net effeithlon awdurdodau lleol ac effeithiolrwydd y gwasanaeth?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn

Os 'nac ydyn', sut gallai'r rhain gael eu gwneud yn glir a beth sydd yn eisiau yn eich barn chi?

C23. Ydy'r Rheoliadau drafft yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer sut y bydd Gweinyddydd y Cynllun yn cymell darparu gwasanaethau rheoli gwastraff pecynwaith effeithlon ac effeithiol gan yr awdurdodau lleol?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', rhowch y manylion pam ac esboniwch beth sydd yn eisiau.

C24. Ydy'r Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn glir beth mae'n ofynnol i Weinyddydd y Cynllun ei wneud a'i ystyried wrth asesu costau gwybodaeth gyhoeddus a chostau gweinyddol Gweinyddydd y Cynllun?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn

Os 'nac ydyn', sut gallai'r rhain gael eu gwneud yn glir a beth sydd yn eisiau yn eich barn chi?

C25. Ydy'r Rheoliadau drafft yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer sut y bydd Gweinyddydd y Cynllun yn dosbarthu taliadau costau gwaredu i'r awdurdodau lleol?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', sut gallai'r darpariaethau gael eu gwneud yn glir a beth sydd yn eisiau yn eich barn chi?

C.26 Ydy'r Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn glir sut y bydd Gweinyddydd y Cynllun yn addasu (modiwleiddio) ffioedd i gyfrif am gynaliadwyedd amgylcheddol pecynwaith cartref?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn

Os 'nac ydyn', sut gallai'r rhain gael eu gwneud yn glir a beth sydd yn eisiau yn eich barn chi?

C27. Oes gennych chi farn ar unrhyw ddeunyddiau y dylid eu hesemptio wrth fodiwleiddio'r ffioedd?

- a. Oes
- b. Nac oes

Os 'oes', rhowch fanylion y deunyddiau hynny.

Ailgyfrifo costau a ffioedd

(Gweler: y Rheoliadau drafft, Rhan 6, Pennod 6)

Mae'r Rheoliadau drafft yn darparu bod Gweinyddydd y Cynllun yn ymgymryd ag ailgyfrifiadau o ffioedd y cynhyrchwyr a chostau'r awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn neu ar ôl y flwyddyn ac yn nodi ar ba sail y gallai'r ailgyfrifiadau hyn ddigwydd a'r amserau perthnasol. Mae'r Rheoliadau drafft yn caniatáu i Weinyddydd y Cynllun ystyried a yw gwybodaeth newydd neu ddiwygiedig yn awgrymu gwahaniaeth sylweddol yn y costau a'r ffioedd roedden nhw wedi'u hasesu ac wedi'u hysbysu ar gyfer blwyddyn asesu benodol. Mae'n nodi'r broses ar gyfer sut y dylai Gweinyddydd y Cynllun gysoni costau'r awdurdodau lleol a ffioedd y cynhyrchwyr pan fo'n penderfynu ailgyfrifo, gan gynnwys ailanfon hysbysiadau.

C28. Ydy'r Rheoliadau drafft yn darparu'r seiliau angenrheidiol i ganiatáu i Weinyddydd y Cynllun ailgyfrifo'r costau a'r ffioedd?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', pa seiliau sydd yn eisiau?

C29. Ydy'r Rheoliadau drafft yn nodi'n glir y broses y mae'n rhaid i Weinyddydd y Cynllun ei dilyn wrth wneud ailgyfrifiadau ffioedd a chostau?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', sut mae gwneud yn broses yn gliriach?

Ailbroseswyr ac Allforwyr

(Gweler: y Rheoliadau drafft, Rhan 7, Pennod 1 ar gyfer Cofrestru a Phennod 2 ar gyfer Achredu)

O dan y Rheoliadau drafft hyn mae'n ofynnol i broseswyr ac allforwyr sy'n trin gwastraff pecynwaith fel rhan o'u gweithrediadau gofrestru gyda'r rheoleiddiwr perthnasol (EA, NIEA, CNC neu SEPA) a chyflwyno data yn flynyddol mewn perthynas â'r gwastraff pecynwaith hwnnw.

Maen nhw hefyd yn gallu cael eu hachredu gan y rheoleiddiwr perthnasol i roi tystiolaeth o ailgylchu gwastraff pecynwaith (Nodiadau Ailgylchu Gwastraff Pecynwaith (PRNs) neu Nodiadau Ailgylchu Allforio Gwastraff Pecynwaith (PERNs).

C30. Ydy'r gofynion cofrestru newydd i ailbroseswyr ac allforwyr sy'n trin gwastraff pecynwaith yn glir?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', rhowch fanylion unrhyw ofynion sy'n aneglur.

C31. Ydy'r amodau a'r gofynion adrodd newydd i ailbroseswyr ac allforwyr achrededig yn glir?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', rhowch fanylion unrhyw amodau a/neu ofynion ynglŷn ag adroddiadau sy'n aneglur.

Apelio

(Gweler: y Rheoliadau drafft, Rhan 8)

Mae cynhyrchwyr, gweithredwyr cynlluniau, ailbroseswyr ac allforwyr yn cael apelio yn erbyn penderfyniadau penodol gan y rheoleiddwyr, mewn perthynas â chymeradwyo, cofrestru ac achredu. Bydd yr apelau hyn yn cael eu gwranddo gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf yng Nghymru a Lloegr, Comisiwn Apelau Cynllunio Gogledd Iwerddon yng Ngogledd Iwerddon a Gweinidogion yr Alban yn yr Alban.

Mae cynhyrchwyr yn cael apelio yn erbyn penderfyniadau Gweinyddydd y Cynllun sy'n ymwneud â'r hysbysiad o atebolrwydd i dalu ffioedd gwaredu a chaiff yr awdurdodau lleol apelio yn erbyn asesiad Gweinyddydd y Cynllun a/neu yn erbyn dosbarthiad y costau gwaredu. Bydd apelau yn erbyn Gweinyddydd y Cynllun yn cael eu penderfynu gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf yng Nghymru a Lloegr, Comisiwn Apelau Cynllunio Gogledd Iwerddon yng Ngogledd Iwerddon a'r siryf yn yr Alban. Ni chaniateir cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad oni bai bod yr apelydd wedi cyflwyno cwyn yn gyntaf yn erbyn Gweinyddydd y Cynllun. Bydd gofyn i Weinyddydd y Cynllun sefydlu gweithdrefn gwyno.

C32. Ydy'r Rheoliadau drafft yn disgrifio'r penderfyniadau y caniateir apelio yn eu herbyn yn ddigonol?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', pa benderfyniadau sydd heb eu disgrifio'n ddigonol neu sydd yn eisiau?

C33. Ydy'r Rheoliadau drafft yn nodi proses apelio ddigonol?

- a. Ydyn
- b. Nac ydyn
- c. Wn i ddim

Os 'nac ydyn', sut gallai'r broses hon gael ei gwneud yn glir?

Rheoleiddwyr

(Gweler: y Rheoliadau drafft, Rhan 10)

Mae'r Rheoliadau drafft yn gosod dyletswydd ar y rheoleiddwyr i fonitro cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau a gofynion cynhyrchwyr, cynlluniau, ailbroseswyr ac allforwyr fel y'u nodir yn y Rheoliadau drafft. Caiff y rheoleiddwyr gyhoeddi unrhyw ganllawiau y maen nhw o'r farn eu bod yn briodol mewn perthynas â gweithredu unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau drafft hyn.

Mae 'prawf person addas a phriodol' newydd y bydd angen i CNC, yr EA, NIEA a SEPA ei roi ar waith. Mae'r Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr hyn gyhoeddi canllawiau ar y cyd ynghylch y meini prawf a fydd yn cael eu cymhwyso wrth benderfynu a yw person yn addas ac yn briodol ai peidio

Datblygu'r EPR dros becynwaith yn y dyfodol

Yn ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad 2021, ymrwymwyd i adolygu'r EPR dros becynwaith ar ôl 2 flynedd ar waith; mae'r ymrwymiad i gynnal yr adolygiad hwn yn parhau. Bydd yr adolygiad yn cynnwys y canlynol (ond gall gynnwys ffactorau ychwanegol sy'n dod i'r amlwg yn ystod gweithrediad cychwynol y cynllun):

- Digonolrwydd mesurau'r EPR, yng nghyd-destun ehangach y diwygiadau casglu a phecyntwaith ac wrth gyflawni'r amcanion amgylcheddol a nodwyd
- Canlyniadau gwaith pellach ar berchnogaeth deunyddiau a chostau gwaredu ar gyfer gwastraff pecynwaith busnes a goblygiadau cysylltiedig ar gyfer y 'system PRNs'
- Ffurf a threfniadau gweithredol Gweinyddydd y Cynllun
- Digonolrwydd y trefniadau i sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau casglu ac ailgylchu gwastraff pecynwaith yr awdurdodau lleol
- Y lle i wella dyluniad y cynllun a'r fframwaith rheoleiddio yn barhaus yn seiliedig ar yr arferion gorau rhyngwladol.

Rydym yn cydnabod y bydd yr EPR dros becynwaith yn esblygu dros amser. Gan hynny, mae gennym ddiddordeb mewn safbwyntiau ar feysydd y dylid canolbwyntio arnyn nhw yn yr adolygiad hwnnw a lle gellid datblygu'r cynllun ymhellach.

C34. Codwch hyd at dri maes o'r polisi ar yr EPR dros becynwaith yr hoffech inni eu hystyried yn yr adolygiad cyntaf, gan eu rhestru yn nhrefn eu blaenoriaeth.

Y camau nesaf

Y camau nesaf ar roi'r Rheoliadau drafft ar waith

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar 9 Hydref 2023. Bydd y Llywodraethau'n ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau drafft fel y bo'n briodol.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad byddwn yn cynnal gweithdai cyd-ddylunio gyda'r rhanddeiliaid i fynd i'r afael â meysydd technegol manylach y Rheoliadau drafft.

Ar ôl ystyried yr ymatebion, bydd gwelliannau a gwaith mireinio priodol ar y Rheoliadau drafft yn cael eu gwneud, a bydd y drafft wedi'i ddiweddarau yn cael ei hysbysu i'r WTO a'r UE yng Ngwanwyn 2024 a bydd ar gael drwy'r broses hysbysu i'r rhanddeiliaid ei gweld.

Bydd yr holl Lywodraethau yn dal i gydweithio i fonitro effaith y Rheoliadau drafft hyn ar weithrediad marchnad fewnol y Deyrnas Unedig.

Atodiad 1: Rheoliadau drafft Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Pecynwaith a Gwastraff Pecynwaith) [2024]